Theatr Iolo

# Pwnc Dai
# Cymeriad

---

## *Un tro*

*‘roedd ‘na fachgen…merch…eliffant*



# Cymeriad

Mae drama yn dweud stori rhywun ac mae'r person yna (neu criw o bobl/creaduriaid) yn gorfod bod yn gymeriad 'ry'n ni'n ei **ddeall.**

Mae'n rhaid inni allu uniaethu efo nhw a'n gosod ein hunain yn eu 'sgidiau, hyd yn oed os mae nhw'n wahanol iawn i ni o ran personoliaeth a sefyllfa.

Os nad oes ots gan y gynulleidfa am y cymeriadau, yna fydd dim ots ganddyn nhw am be' sy'n digwydd iddyn nhw.

Mae gan y mwyafrif o ddramau **brif gymeriad**. Gallai hwn fod yn berson, anifail neu hyd yn oed cymeriad cartŵn

## Dau beth pwysig!

- Dylai cymeriad bob amser fod **eisiau neu angen rhywbeth.**
- Mae'n rhaid i gymeriad fod yn **ddiddorol**.

Os nad yw dy cymeriad eisiau neu angen rhywbeth yna ddigwyddith dim byd, wnaiff dim byd newid a fydd genti ddim drama na digwyddiadau yn dy stori.

Os nad yw dy gymeriad yn un diddorol, fydd y gynulleidfa ddim yn malio amdanyn nhw nag am eu stori.

## Sut fedri di ganfod cymeriadau diddorol?

- Falle bod nhw'n rhywun ti'n 'nabod yn barod neu gallet ti wneud dy hun yn brif gymeriad.
- Falle gwneith y byd neu'r thema neu'r syniad 'rwyt ti am sgwennu amdano dy arwain di tuag at gymeriad arbennig.

**Os wyt ti'n cael trafferth penderfynu ar dy gymeriad, rho gynnig ar rai o'r syniadau yma...**



# Syniad Un

## Gwrthrychau

# Gwrthrychau

***Dewisa dau beth o'r rhestr yma:***

Bocs matsus

Boa plu

Babygro

Crys rygbi melyn a gwyrdd

Ffrâm llun wag

Hen hances boced

Dyddiadur 2025

Pâr o sbectols mewn câs

Hen dedi

Pecyn hadau

Adroddiad ysgol

Brechdan wedi hanner ei bwyta

Tocyn trên i Fryste

Napcyn gydag X wedi sgriblo arno

***Paid â mynd ati i ddewis pethau sy'n perthyn i'w gilydd.***

***Bydd y ddau beth y gwnei di ddewis yn bwysig iawn i'r cymeriad 'rwyt ti'n ei greu.***

**GAIR I GALL: Cofia y dylia bod dy gymeriad yn ddiddorol ac y dylia nhw fod eisiau neu angen rhywbeth.**

**Dewisa ddwy eitem all eu helpu i newid rhywbeth am eu bywyd, neu i ddangos pa mor ddiddorol o berson ydyn nhw neu i'w helpu nhw i gael yr hyn mae nhw ei eisiau neu ei angen**

## *Nawr, dychmyga ble mae'r ddau beth yma:*

Mewn poced

Ar silff

Mewn ogof

Mewn llaw

O dan y ddaear

Mewn bag

Mewn cornel dywyll

Mewn cwpwrdd

O dan y gwely

Ar silff ben tân

Meddylia pam bod y ddau beth yma yn bwysig i'r cymeriad.

Falle oherwydd bod y pethau yn eu hatgoffa o rywun neu rywbeth, neu falle bod nhw'n rhoi cyfarwyddiadau am siwrne neu dasg arbennig y maen rhaid iddynt gwblhau.

## Allwch chi feddwl am resymau eraill?



# Syniad Dai

## Rho Bersonoliaeth I Dy Gymeriad

# Rho Bersonoliaeth I Dy Gymeriad.

## Noda gymaint o ansoddeiriau (geiriau disgrifio) ag y medri di.

### Er enghraifft:

| | | |
|---|---|---|
| Hapus | Diog | Prysur |
| Ymarferol | Meddylga | Blin |
| Blêr | Chwilfrydig | Cariadus |
| Plentynnaidd | Bodlon | Creadigol |
| Diflas | Cwrtais | Anturus |
| Penderfynol | Hunanol | Trwsgl |
| Ofnus | Egnïol | |

Unwaith 'rwyt ti wedi gwneud rhestr faith, dewis ddau ansoddair i'w paru gyda'i gilydd.

### Er enghraifft:

Ceisia roi dau ansoddair sy'n ddiddorol efo'i gilydd.
Beth am Cariadus a Hunanol? Penderfynol a Trwsgl?Neu Chwilfrydig ac Ofnus?

## Ceisia greu cymaint o barau diddorol â phosib

Mae'r parau yn dangos sut mae gan bobl sawl ochr gwahanol i'w cymeriadau, ac yn aml mae'r darnau gwahanol ohona ni fel pobl yn tynnu'n groes.

Mae nhw'n **gwrthdaro neu'n bwrw mewn** i'w gilydd. Mae'r gwrthdaro yma yn beth da a defnyddiol mewn drama, oherwydd ei fod o'n gwneud bywyd yn **anodd** i'r cymeriad.

Mae'n beth da bod pethau'n anodd i gymeriad oherwydd mae nhw'n **gorfod gwneud** pethau, er mwyn gwneud bywyd yn braf eto. Petai cymeriad yn berffaith hapus, yn eistedd yn yr ardd yn bwyta bisgedi, yna fyddai ganddo fo ddim stori, dim taith a dim byd diddorol amdanyn nhw.

## Dewis dy hoff bâr o ansoddeiriau

Rho'r cymeriad sydd efo'r darnau gwahanol yma i'w bersonoliaeth mewn sefyllfa sy'n eu corddi.

### Er enghraifft:

Er enghraifft, petai dy gymeriad yn ferch fach barus ond cwrtais, beth fyddai hi'n wneud ym mharti penblwydd ei ffrind gorau pan mae 'na lwythi o fwyd parti ar y bwrdd fel byffê i bawb gael helpu ei hunain?

Fyddai hi'n llenwi'i phlât a stwffio bwyd? Neu fyddai hi'n bwyta'r un maint â phawb arall? Beth petai hi'n llwglyd yn cyrraedd y parti? Gofynna wrthyt ti dy hun beth fyddai'r peth mwyaf diddorol allai ddigwydd.

**GAIR I GALL: Paid â gwneud pethau'n rhy hawdd i dy gymeriad! Os wyt ti'n gwneud pethau'n anoddach iddyn nhw, bydd eu drama yn fwy difyr.**



# Syniad Tri

## Dod i adnabod dy gymeriad yn well

# Dod i adnabod dy gymeriad yn well.

**GAIR I GALL: Paid â trio gwneud i bopeth ffitio yn ei gilydd. Cofia fod gan gymeriadau rinweddau amrywiol iawn**

Yr un peth pwysicaf medri ei wneud wrth ddatblygu stori a chymeriadau yw **Gofyn Cwestiynau!** Pwy, Sut? Beth? A falle y cwestiwn pwysicaf – Pam?

Ceisia ddod i adnabod dy gymeriad yn well trwy esgus mai ti ydyn nhw ac ateb y cwestiynau sy'n dilyn yn eu llais nhw.

Mae hyn yn gallu bod yn dipyn o sbort oherwydd fe alla dy gymeriad ddewis dweud celwydd, peidio ateb, bod yn ddigywilydd neu godi braw.


1. Wyt ti'n fenyw, gwryw neu'r un o'r ddau?
2. Faint oed wyt ti?
3. Lle wyt ti yr eiliad hon?
4. Yn lle ges di dy eni?
5. Yn lle rwyt ti'n byw? (e.e. tŷ, plas, cwch, bocs cardfwrdd)
6. Beth yw dy hoff dilledyn?
7. Pa bâr o sgidiau sydd gen'ti sydd wedi gwisgo fwyaf?
8. Beth wyt ti'n ei gredu? (fel ffaith neu crêd)
9. Beth yw dy hoff fwyd?
10. Beth yw dy hoff liw?
11. Beth wyt ti'n obeithio bod pan fyddi di'n hŷn?
12. Beth yw dy gyfrinach di?
13. Beth oedd/yw dy hoff bwnc yn yr ysgol?Pam?
14. I ble 'rwyt ti'n mynd i feddwl?
15. Beth yw dy gyfrinach di?
16. Pwy yw dy ffrind gorau?
17. Beth yw dy hoff atgof di?
18. Beth yw'r peth 'rwyt ti'n dyfaru fwyaf?
19. Enwa rhywbeth rwyt ti eisiau yn ofnadwy?
20. Pryd oedd y tro diwethaf iti chwerthin llond dy fola?

Noda yr atebion i gyd a dewis y pethau pwysicaf rwyt ti wedi eu dysgu am dy gymeriad drwy gwblhau'r holiadur.

Gobeithio y bydd y cymeriad wedi dy **synnu** di gydag ambell beth neu mewn rhyw ffordd.

Os oes 'na gwestiynau ac atebion eraill hoffet ti ychwanegu ar gyfer dy gymeriad, am eu teulu neu ddiddordebau, gwna hynny nawr.

Unwaith 'rwyt ti'n hapus gyda'r atebion, rho enw i dy gymeriad. Meddylia **pam** bod yr enw yna yn gweddu iddyn nhw neu **pam** fod ganddyn nhw enw anghyffredin.



# Synniad Pedwar

## Rhoi Llais I Dy Gymeriad

# Rhoi Llais I Dy Gymeriad

Dychmyga fod dy gymeriad yn **eu lle arbennig nhw.** I ble maen nhw'n mynd pan maen nhw angen ystyried neu feddwl, i wneud dewis neu benderfyniad?

Falle mai yn eu llofft mae nhw, neu mewn sied yn yr ardd? Falle bod nhw mewn den neu lle hud nad ydi neb arall yn gwybod amdano. Falle bod nhw o dan fwrdd y gegin. Neu yn y gampfa yn yr ysgol. Neu yn y parc. Neu mewn coeden

Dewisa eu lle arbennig ac os oedd ganddyn nhw wrthrych (peth) efo nhw. Neu oes na berson arall yno? Os oes yna, tydyn nhw ddim yn cael clywed beth sydd gan y cymeriad i'w ddweud.

Dychmyga fod gan dy gymeriad di broblem neu rywbeth i'w sortio yn eu pen. Falle bod ganddyn nhw ddewis neu benderfyniad anodd i'w wneud

## Er enghraifft;

I fynd i'r Wlad Hud neu beid
I ddewis gwyddoniaeth neu gerddorieth
I geisio am dîm yr ysgol
I ymddiheuro wrth rhywun
I ofyn wrth rhywun allan ar ddêt

I ddweud wrth oedolyn bod nhw'n cael eu bwlio
I achub y byd tra'n rhoi eu hunain mewn peryg
I ddweud wrth oedolyn am rywbeth welson nhw
I gyfadde bod nhw'n teinlo'n unig neu'n ofnus

**Rho gynnig ar un o'r dewisiadau yma a noda y sgwrs mae'r cymeriad yn cael yn eu pen wrth geisio penderfynu beth i'w wneud.**

Sgwenna'r geiriau yn union fel rwyt ti'n credu y bydda'r cymeriad yn eu dweud. Toes dim rhaid egluro beth yw'r broblem wrth sgwennu, a toes dim rhaid i bob gair wneud synnwyr i ni wrth wrando.

**Gwna'n siwr fod y cymeriad yn newid eu meddwl yn ystod y sgwrs maen nhw'n ei gael gyda nhw eu hunain.**

**AIR I GALL: Gwna hi'n anodd i gymeriad wneud penderfyniad, fel bod rhaid iddyn nhw ystyried yn galed beth i'w wneud. Defnyddia iaith ac ymadroddion dy gymeriad ac nid dy iaith di**



# Syniad Pump

## Beth Mae Cymeriadau Angen Ac Eisiau

# Beth Mae Cymeriadau Angen Ac Eisiau

Noda bopeth 'rwyt ti wedi ei ddysgu am yr hyn mae dy cymeriad di ei **eisiau. Cofia** os yw cymeriad eisiau neu moyn rhywbeth yn gryf yna mae'n ei wthio i wneud pethau ac i symud y stori ymlaen.

Dyma rai enghreifftiau o bethau mae pobl ei heisiau neu moyn – dwi'n meddwl yn benodol am berson ifanc a'r pethau galle nhw fod eisiau/moyn, a dwi'n sgwennu yn y person cyntaf (Dwi eisiau/moyn)

## Er enghraifft:

Dwi eisiau iddi fod yn Nadolig bob dydd
Dwi moyn hufen ia
Dwi moyn fy rhieni fod yn gyfoethog.
Dwi eisiau i mam neu dad fod yn hapus.
Dwi eisiau peidio mynd i'r ysgol eto
Dwi moyn i bawb lico fi
Dwi eisiau hedfan fel aderyn
Dwi moyn dweud wrth oedolyn am bethau sy'n digwydd yn yr ysgol

Dwi eisiau beic Newydd
Dwi eisiau bod yn ddawnsiwr
Dwi eisiau gallu nofio
Dwi moyn i Dadcu fod yn fyw
Dwi eisiau gyrru bws
Dwi eisiau bod yn glyfar

**Sgwennna restr o bethau diddorol mae dy gymeriad di ei eisiau. Yna meddylia am y rhwystrau sy'n sefyll yn eu ffordd.**

**Mae'n rhaid iddyn nhw guro'r rhwystrau yma er mwyn cael beth maen nhw moyn.**

Beth petai dy gymeriad eisiau hufen ia? Pa rwystrau allai sefyll yn eu ffordd?

## Er enghraifft:

- Mae nhw'n gaeth i'r tŷ (fel cosb)
- Mae'r fan hufen ia wedi torri lawr
- Mae cartre'r cymeriad yn bell o bobman
- Toes dim arian i gael
- Mae'r ffatrïoedd i gyd wedi stopio gwneud hufen ia.
- Mae'r siopau i gyd wedi cau

Mae pob un o'r rhesymau hyn yn wahanol iawn, ond mae pob un yn rhoi problem i'r cymeriad. Os mae nhw wir, wir eisiau'r hufen ia yna, falle bod nhw'n fodlon gwneud rhywbeth mawr neu eithafol i guro'r rhwystr sydd yn y ffordd.

## Er enghraifft:

- Fe allen nhw sleifio allan trwy'r ffenest a rhedeg i'r pentref
- Gallen nhw ddweud celwydd wrth eu rhieni a mynnu mai eu brawd wnaeth y peth drwg, dim nhw
- Gallen nhw geisio trwsio'r fan hufen ia neu godi arian er mwyn ei drwsio

## Pa enghreifftiau eraill elli di feddwl amdanyn nhw?

Meddylia am rywbeth mae dy gymeriad di ei eisiau neu ei angen ac yna meddylia am rwystr sy'n sefyll yn y ffordd. Yna mi fedri di feddwl am gyfres o bethau mae nhw'n fodlon gwneud i gael yr hyn maen nhw eisiau.

**GAIR I GALL: Paid â phoeni os yw dy gymeriad yn ymddangos fel person drwg neu hunanol wrth fod eisiau rhywbeth a bod yn fodlon gwneud unrywbeth i'w gael. 'Toes neb yn berffaith. Ac yn aml iawn mewn dramau, mae'r cymeriad yn ffeindio nad oedd o eisiau y peth wedi'r cyfan.**

# I grynhoi:

Mae'n bwysig bod cymeriad yn ddiddorol a bod ganddyn nhw lwyth o agweddau gwahanol i'w personoliaeth.

Rhaid i gymeriad fod eisiau neu angen rhywbeth, neu wnawn nhw ddim gwneud i bethau ddigwydd.

Dylai cymeriad newid a sylweddoli rhywbeth newydd yn ystod y ddrama.

'Toes dim rhaid i gymeriad wasted wneud y peth cywir neu gall.

Mae'n bwysig ein bod ni'n deall pam bod cymeriad yn teimlo ac ymddwyn mewn ffordd arbennig, hyd yn oed os nad ydan ni'n eu hoffi.

